

PETHAU GWLYB

- bioamrywiaeth y traeth gan Nerys Lloyd Mullally

Yma, ceir syniadau am weithgareddau Gwaith Maes ar lan y môr. I ddisgyblion o berfeddion gwlad, mae ymweliad â'r arfordir ynddo'i hun yn antur, a hyd yn oed i blant sydd yn byw yng nghyffiniau'r môr, mae rhywbeth newydd i'w ddarganfod bob amser.



Gwaith Maes ar draeth Rhosneigr, Ynys Môn

Trefnwyd y gwaith fel a ganlyn:

Rhagarweiniad i athrawon

Gweithgaredd 1 **Pethau gwlyb** (lefelau 1 – 2)

Gweithgaredd 2 **Tamaid blasus** (lefelau 2 – 3)

Atodiad: **Ffeithiau Gwlyb** (cefndir a sail i holiadur difyr.)

Bydd angen mwy o baratoi ar gyfer gweithgaredd 2. Argymhellir darparu cyfle i'r disgyblion gyfarwyddo â'r termau gwahanol (e.e. cigysydd, detrisysydd) ac hefyd i ddod i adnabod yr anifeiliaid a'r planhigion y maent i ddod o hyd iddynt trwy astudio cyfeirlyfrau pwrpasol.

a) Gellid darparu ac ystyried allweddï pwrpasol ac felly cyflawni un o ofynion ychwanegol y Cwricwlwm Cenedlaethol.

b) Byddai'n ddefnyddiol cynnal arolwg o draeth yr ymweliad ymlaen llaw – fel rhan o asesiad peryglon ac hefyd i gael syniad o ba rywogaethau y bydd y disgyblion yn debyg o'u darganfod yno.

Iechyd a diogelwch

Edrychwch ar dablau trai a llanw cyn yr ymweliad ... nid yn unig er mwyn sicrhau diogelwch pawb, ond er mwyn gwneud yn siwr fod yr hyn yr ydych am ei astudio yn y golwg ac nid o dan y tonnau!

Mae Laver's Tide Tables ar gael o:
(llyfr - £1.25, crynoddig - £9.99)

Dickies, Bangor	01248 363400
Pwllheli	01758 701828
Abertawe	01792 645303

Gweithgaredd 1

Enw: _____

Dosbarth: _____ Dyddiad: _____

PETHAU GWLYB

Faint ydych chi'n ei wybod am anifeiliaid y môr?

Mae llawer o waith diddorol y gallwch ei wneud ar daith gwaith maes i lan y môr.

I ddechrau, dyma weithgaredd hawdd y byddwch yn siwr o'i fwynhau.

COFIWCH – ER BOD GLAN Y MÔR YN LLE DA AM HWYL MAE'N MEDRU BOD YN LLE PERYGLUS. GWRANDEWCH YN OFALUS AR EICH HATHRAWON A CHADWCH YN UNION AT BETH MAEN NHW'N EI DDWEUD.



Cerddwch ar hyd y draethlinell ac edrychwch yn ofalus beth sydd yno – ar y tywod a rhwng y cerrig.

Penderfynwch

- beth sydd yn fyw
- beth fuodd yn fyw ar un adeg
- beth na fuodd erioed yn fyw.



Beth ddarganfyddoch chi?
Anifeiliaid? Planhigion? Rhywbeth arall?

Ar y tabl isod, nodwch **5** enghraifft o bob grŵp, gan eu gosod yn y golofn gywir. Bydd rhaid meddwl llawer weithiau – wedi'r cyfan, anifail ydy anemoni y môr!

	BYW	BYW AR UN ADEG	ERIOED WEDI BYW
1			
2			
3			
4			
5			

Mae popeth byw yn bwydo ar rywbeth arall, ac mae perthynas arbennig yn bodoli rhwng yr holl bethau byw yng nghynefin y traeth. Yr enw ar y berthynas hon ydy **cadwyn fwyd** e.e. GWYLAN yn bwyta GWICHIAID sydd yn bwyta GWYMON.

Mae'r holl rywogaethau byw yn cael eu dosbarthu yn ôl pa fwy y maen nhw'n yn ei fwyta.

CIGYSYDD yw gwylan sydd yn bwyta **cig** gwichiaid.

LLYSYSYDD yw'r gwichiaid sydd yn bwyta'r gwymon (**llyisiau** ydy planhigion.)

DETRITYSYDD (MALURYSOR) yw creadur sydd yn bwyta darnau mân o fwyd organig, gweddillion pethau sydd wedi marw a phydru.

HOLLYSYDD yw anifail (fel ni!) sydd yn bwyta cig a phlanhigion.

(Ystyr **YSYDD** yw rhywbeth sydd yn bwyta pethau byw eraill.)

YSGLYFAETH yw'r enw ar anifeiliaid sydd yn cael eu bwyta gan anifail arall - fel y gwichiaid sydd yn cael eu bwyta gan y wylan.

CYNHYRCHYDD yw'r gwymon sydd yn gallu gwneud ei fwyd ei hun wrth ddefnyddio golau'r haul - mae'n cynhyrchu bwyd ar gyfer creaduriaid eraill.



Rhestrwch y pethau BYW a BYW AR UN ADEG y daethoch o hyd iddyn nhw ar y traeth yng ngholofn gyntaf y tabl isod, yna ticiwch y golofn gywir i ddangos i ba grŵp bwydo y maent yn perthyn.

Enw	Cig- ysydd	Llys- ysydd	Detrit- ysydd	Holl- ysydd	Cyn- hyrchydd

Beth yn union ydy bwyd y pethau hyn?
Ydyn nhw'n bwyta rhywbeth arall ar y rhestr?
Ydyn nhw'n rhan o **gadwyn fwyd**?

Gweithgaredd 2

TAMAID BLASUS ... cadwyni bwyd

Mae popeth byw yn bwydo ar rywbeth arall, ac mae perthynas arbennig yn bodoli rhwng yr holl bethau byw yng nghynefin y traeth. Yr enw ar y berthynas hon ydy **cadwyn fwyd** e.e. GWYLAN yn bwyta GWICHIAID sydd yn bwyta GWYMON

Mae'r holl rywogaethau byw yn cael eu dosbarthu yn ôl pa fwyd y maent yn ei fwyta.

CIGYSYDD yw gwylan sydd yn bwyta **cig** gwichiaid.

LLYSYSYDD yw'r gwichiaid sydd yn bwyta'r gwymon (**llyisiau** ydy planhigion.)

DETRITYSYDD (MALURYSOR) yw creadur sydd yn bwyta darnau mân o fwyd organig, gweddillion pethau sydd wedi marw a phydru.

HOLLYSYDD yw anifail (fel ni!) sydd yn bwyta cig a phlanhigion.

(Ystyr YSYDD yw rhywbeth sydd yn bwyta pethau byw eraill.)

YSGLYFAETH yw'r enw ar anifeiliaid sydd yn cael eu bwyta gan anifail arall - fel y gwichiaid sydd yn cael eu bwyta gan y wylan.

CYNHYRCHYDD yw'r gwymon sydd yn gallu gwneud eu bwyd eu hunain wrth ddefnyddio golau'r haul – mae'n cynhyrchu bwyd ar gyfer creaduriaid eraill.

Cyn ymweld â glan y môr ar eich gwaith maes, bydd angen

1) dysgu'r termau uchod 2) astudio llyfrau, taflenni a gwybodaeth o'r we sydd yn dangos a disgrifio'r creaduriaid y byddwch yn chwilio amdanynt.

COFIWCH – ER BOD GLAN Y MÔR YN LLE DA AM HWYL MAE'N MEDRU BOD YN LLE PERYGLUS. GWRANDEWCH YN OFALUS AR EICH HATHRAWON A CHADWCH YN UNION AT BETH MAENT YN EI DDWEUD.



Awgrym i'ch helpu:
Gwymon gwyrdd – wyneb y dŵr
Gwymon brown – yn y canol
Gwymon coch – yn y gwaelod

**BYDDWCH YN OFALUS RHAG LLITHRO
I BLITH TRIGOLION Y MÔR**

Disgyblion Ysgol y Garnedd, Bangor, ar Ynys Môn

Chwiliwch am y rhywogaethau ar y tabl, ticiwch y blwch cywir ar eu cyfer ac ychwanegwch unrhyw rai eraill y cewch hyd iddynt. (Defnyddiwch gefn y daflen hefyd os bydd angen.) Ceisiwch lunio cadwyni bwyd o blith eich darganfyddiadau.

Enw: _____ Dosbarth: _____ Dyddiad: _____

Enw		✓	Cigysydd	Llysysydd	Debitysydd	Cynhyrhydd
Môr-wiail/brŵal	Kelp					
Môr-wiail/byseddog Gwregys y môr	Oar weed Sugar kelp					
Gwymon codog mân Gwymon codog bras	Bladder wrack Egg wrack					
Gwymon troellog Gwymon danheddog	Spiral wrack Serrated wrack					
Gwymon coch/delysg Clytiau cochion	Dulse Red rags					
Mwsogl Iwerddon Gwymon brown	Caragheen moss					
Pwrs y fôrforwyn Maneg y fôrforwyn	Mermaid's purse Mermaid's glove					
Cas wyau malwoden y môr	Whelk egg cases					
Seren fôr	Starfish					
Cranc (gwyrdd)	(Green) shore crab					
Pibell fôr	Pipe fish					
Gwylan	Gull					
Pioden y môr	Oystercatcher					
Cylllell fôr	Razor shell					
Gwichiaid	Periwinkles					
Cocos	Cockles					
Wystrysen (gyfrwy)	(Saddle) oyster					
Cregyn gleision Misglod	Mussels					
Trwyn fy nain Top môr melyn	Grey top shell Yellow top shell					
Cragen long	Barnacle					
Anemoni môr	Sea anemone					
Llygad maharen Brennig	Limpet					
Draenog y môr	Sea urchin					

Atodiad: Ffeithiau Gwlyb

Dŵr - deunydd/sylwedd unigryw; gall newid ei ffurf o hylif i nwy neu solid ag yn ôl i hylif. Mae hyn yn dibynnu ar y tymheredd.

- Gellir dod o hyd i ddŵr ar draws y rhan fwyaf o'r byd.
- Mae tua 97% o ddŵr y byd yn y cefnforoedd. [sef: cefnfor Arctic 14,090,000kmsg, cefnfor India 74,929,000km sg, Y Môr Tawel 179,680,000km sg, cefnfor Iwerydd 106,460,000km sg]. Mae 2% yn rew a llai na 1% yn ddŵr ffres ac anwedd dŵr.
- Mae dŵr y môr yn cynnwys: 95% dŵr pur, 2.9% o halen; mae'r 0.6% sy'n weddill yn elfennau hybrin sef- calsiwm, fflworid, boron, bicarbonadau, bromin, magnesiwm, potasiwm, strontiwm a sylffad.
- Mae sawl defnydd i ddŵr e.e.

*Golchi gwallt/dillad/llestri

*Dŵr i bobl, anifeiliaid a phlanhigion gael yfed i fyw.

- Mae dŵr yn gartref i lawer o anifeiliaid a phlanhigion, dŵr hallt y môr, a dŵr croyw llyn ac afon.
- Gan fod pobl yn defnyddio peiriannau golchi dillad a llestri, mae'r defnydd o ddŵr bron wedi dyblu yn y 30 mlynedd diwethaf.
- Ar gyfartaledd, mae bob person ym Mhrydain yn defnyddio 160 litr o ddŵr bob diwrnod, sydd dros 1,000 litr bob wythnos.
- Yn 1989 fe ffurfiwyd deg cwmni dŵr sydd yn cynnal a chadw system carthffosiaeth i 75% o boblogaeth Cymru a Lloegr.
- Roedd 21 o gwmnïau eraill yn gyfrifol am y 25% arall; mae'r cwmnïau hyn fel arfer yn y sector breifat.
- Mae arbrofion ar ddŵr yfed yn cael eu gwneud yn gyson.
- Yn 1996 fe gafodd dros 3 miliwn o arbrofion eu cynnal. O'r rhain, roedd 95.5% yn dangos dŵr digon pur i'w yfed.
- Dim ond 3% o ddŵr mewn cartref sydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn coginio ac yfed.
- Mae 1/3 o ddŵr y cartref yn cael ei ddefnyddio ar gyfer toiledau.
- Mae dros 250,000 km o bibellau dŵr ym Mhrydain.
- Yn Llundain mae 2,600 miliwn litr o ddŵr yn cael eu defnyddio bob diwrnod.